# Minutes of Meeting of the Environmental Committee held on 27th January 2026 at 6.30 pm
## Hybrid Meeting Ostreme Centre and via Teams

**Councillors Present:** Carrie Townsend Jones (Chair), Helen Nelson, Sara Keeton, and Rebecca Fogarty

**Co-opted members present:** Cllr Eddie Hall

**Officers Present:** Mari Potter – Environmental and Sustainability Officer and Ian Hughes – CSO

At the commencement of the meeting The Chair, Cllr Townsend Jones welcomed Mari Potter, the newly appointed Environmental and Sustainability Officer who will be formally introduced under agenda item **EN2601-03**

**EN2601-01** **Apologies:** Phil Keeton

**EN2601-02** **Declarations of Interest:**

Cllrs Fogarty and Sara Keeton declared a personal interest in any matter connected to SCC that might arise in their capacities as SCC Councillors.

Later during the meeting Cllrs Townsend Jones, Fogarty and Nelson declared a personal interest when the installation of bird/bat boxes at Upper Norton Field and Acre Field Allotments was discussed due to their membership/connection with the allotments in question (**EN2601-06** refers).

**EN2601-03** **Welcome to Mari Potter, Environmental Engagement Officer**

Having been invited by The Chair, Cllr Townsend Jones to do so, Mari Potter the newly appointed Environmental and Sustainability Officer provided an outline of her background and interest in environmental issues. Having studied geology at University, Mari is undertaking a masters degree in Environmental Conservation and Management at Trinity St. David's University in Swansea. Mari will be working on a part-time basis on Monday, Thursday and Friday of each week whilst dedicating each Tuesday and Wednesday towards her studies.
Mari is passionate about environmental concerns and is looking forward to making a contribution in her new role.

**EN2601-04** **Minutes of Previous Meeting of the Committee**

To approve the minutes of the meeting held on 25th November 2025 as a true record.

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 25th November 2025 as a true record subject to the section relating to public participation being amended.

**EN2601-05** **Actions arising from Previous Meetings**

The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of outstanding 'actions' to committee members. Discussions took place on a number of outstanding and proposed new actions.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

**EN2601-08** **Budget Monitoring Reports to 30/11/2025**

Reports attached.

Financial reports prepared by RFO, Paul Beynon had previously been distributed to committee members. No questions relating to the budget reports had been provided either to the CSO or the RFO prior to the meeting.

The reports were outlined to the committee by The Chair, Cllr Townsend Jones, who provided additional information where necessary.

The Chair also outlined that Ashley, the Grounds Maintenance Officer had been diagnosed with a leg fracture and would be incapacitated for six weeks which will delay a number of projects progressing.

**ACTION** Cllr Townsend Jones to liaise with Cllr Erasmus in relation to the installation of a bench outside the Lovespoon Gallery on Mumbles Road.

**ACTION** Cllr Nelson to progress the installation of bird/bat boxes at Acre Field Allotment. Cllr Townsend Jones to liaise regarding the installation at Upper Norton Field Allotments (Cllrs Nelson, Townsend Jones and Fogarty declared personal interests due to their association with the allotments)

**RESOLVED** to approve the budget monitoring reports to 30 November 2025

Due to a number of councillors needing to leave the meeting at 7.30pm it was agreed to prioritise a number of agenda items.

**RESOLVED** to discuss agenda items **EN2601-10 to EN2601-13** and recap on earlier agenda items if time permitted.

**EN2601-10**

**Bicycle Hub Update**

Cllr Townsend Jones, outlined a request to create a cycle repair hub in Mumbles. This is being initiated through Wheelrights. Whilst there are no financial implications for MCC in terms of funding a recommendation to support a hub would be beneficial for Wheelwrights in any future applications with SCC . It is hoped that the hub will incorporate a repair shop and will also provide support for users of skateboards and scooters.

**RECOMMENDED** That MCC provide support for an application to locate a bicycle support hub in Mumbles.

**EN2601-11**

**Bethany Gardens**

Cllr Townsend Jones, outlined a request from volunteers associated with Ripples Café who maintain an area known as Bethany Gardens. The volunteers have requested that MCC support an initiative that Bethany Gardens be maintained in conjunction with the adjacent Jubilee Gardens.

**RECOMMENDED** That MCC support volunteers in the joint maintenance of Bethany Gardens and Jubilee Gardens.

**EN2601-13**

**Review of Current Projects and Plans and Priorities:-**

**a) Repair Café Update**
The Chair, Cllr Townsend Jones informed the committee that the Repair Café had been a great success during its initial stages. It will be held regularly on the second Friday of each month between 10am and 1pm at The Hub, Underhill Park. The next meeting being on Friday 13th February 2026.

**b) Bee Friendly Streets**
Cllr Fogarty updated the committee on grant applications being progressed through The Landfill Tax Grant Scheme. It is hoped that funding will be approved but a number of MCC Councillors have committed their allowance to the project if required.

**c) Norton Nature Reserve, The Orchard & Jubilee Gardens Update**
Progress on this project will be delayed due to the grounds maintenance officer being injured.

**d) West Cross Green Hedge Laying Workshop**
Cllr Sara Keeton informed the committee that preparations have been made for hedge laying at West Cross. A maintenance team will be using a chain saw to clear areas on 24th to 26th February 2026. This work would not be suitable for volunteers or MCC staff to assist with. Cllr Keeton to provide a further update at March Committee Meeting.

**e) Water Quality Testing**
This item had been addressed under outstanding actions (**EN2601-05** refers) with Mari Potter progressing the matter.

**f) Buzz and Bloom 26**
The Committee discussed options for advertising and enrolling participants. Consideration was also given to utilising other projects and events to maximise participation including Crop Collective, Mumbles Gardeners Question Time, Green Heroes and Bee Friendly.
It was suggested that photographs over the course of the year may be a better alternative than a 'one off' judging day and that the use of Facebook may facilitate this process
**RESOLVED:** Mari Potter to consider suitable options and update Committee in March.

**g) Bee Friendly Streets** (Duplicate of 13b)

**h) SUDS and Flood Awareness**
To be linked with item 13K

**i) Plastic Free Mumbles**
No developments/updates

**j) Mumbles GQT**
Details of event available through QR Code and is being advertised through posters and MCC Website. The event will take place at The Ostreme Centre on 21st March 2026 between 6 and 8pm. Kate Davies has been confirmed as a panellist.

**k) Green event for September 26.**
This event is planned to be taking place at The Ostreme Centre although no date has been fixed. A number of proposals connected to the event were proposed including green stalls and cooking demonstrations. In addition involving other events such as Buzz & Bloom, and Mumbles Gardeners Question Time was also considered.

**RESOLVED**; It was agreed that a working party be assembled to make the necessary arrangements and that the newly appointed volunteer co-ordinating officer, Sarah Thyer be consulted. Cllr Sara Keeton volunteered to be part of the working group.

**EN2601-07** **Budget 2026/27**

The Budget Scrutiny Meeting discussed and made recommendations in relation to budget proposal forms on 26.1.2026
The Chair, Cllr Townsend Jones encouraged committee members to be mindful of current underspent budgets when considering budgets for 2026/27.
Cllr Fogarty requested proposals for the locations of new bus shelters within the MCC area.

**RESOLVED** Cllr Townsend Jones to include within her next Environmental Report to Full Council, the option for councillors across MCC to make location suggestions for bus shelters. Proposals to be forwarded to Cllr Townsend Jones before end of February 2026.

**EN2601-08** **Castle Woods Paths Update**

This item had been addressed under outstanding actions (**EN2601-05** refers)

**EN2601-09** **Training Plan**
**Free OVW Diversity training places**

The Chair, Cllr Townsend Jones noted that two free places were available for Councillors for diversity training.

**EN2601-12** **Diversity Crisis Update**
**- Big Climate Leap**

**RESOLVED:** Agenda item deferred to March Meeting

**Meeting ended at 7.31pm.**

**Next Meeting 24th February 2026**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2026 am 6.30 pm Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Microsoft Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Carrie Townsend Jones (Cadeirydd), Helen Nelson, Sara Keeton, a Rebecca Fogarty

**Aelodau cyfetholedig yn bresennol:** Y Cynghorydd Eddie Hall

**Swyddogion yn bresennol:** Mari Potter – Swyddog Amgylcheddol a Chynaliadwyedd ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

Ar ddechrau'r cyfarfod, croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, Mari Potter, y Swyddog Amgylcheddol a Chynaliadwyedd newydd ei phenodi, a fydd yn cael ei chyflwyno'n ffurfiol o dan eitem agenda **EN2601-03**

**EN2601-01** **Ymddiheuriadau:** Phil Keeton

**EN2601-02** **Datganiadau o fuddiant:**

Gwnaeth y Cynghorwyr Fogarty a Sara Keeton ddatganiad o fuddiant personol mewn unrhyw fater sy'n gysylltiedig â Chyngor Dinas a Sir Abertawe a allai godi yn rhinwedd eu bod yn Gynghorwyr Cyngor Dinas a Sir Abertawe.

Yn ddiweddarach yn ystod y cyfarfod, gwnaeth y Cynghorwyr Townsend Jones, Fogarty a Nelson ddatganiad o fuddiant personol pan drafodwyd gosod blychau adar/ystlumod yn Rhandiroedd Cae Upper Norton ac Acre Field oherwydd eu haelodaeth/cysylltiad â'r rhandiroedd dan sylw (cyfeiriad **EN2601-06**).

**EN2601-03** **Croeso i Mari Potter, Swyddog Ymgysylltu Amgylcheddol**

Ar ôl cael gwahoddiad gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, i wneud hynny, rhoddodd Mari Potter, y Swyddog Amgylcheddol a Chynaliadwyedd newydd ei phenodi, amlinelliad o'i chefndir a'i diddordeb mewn materion amgylcheddol. Ar ôl astudio daeareg yn y Brifysgol, mae Mari yn astudio am radd meistr mewn Cadwraeth a Rheolaeth Amgylcheddol ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant yn Abertawe. Bydd Mari yn gweithio'n rhan-amser bob wythnos ddydd Llun, dydd Iau a dydd Gwener tra'n neilltuo pob dydd Mawrth a dydd Mercher i'w hastudiaethau.
Mae Mari yn angerddol am bryderon amgylcheddol ac mae'n edrych ymlaen at wneud cyfraniad yn ei rôl newydd.

**EN2601-04** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2025 fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2025 fel cofnod cywir yn amodol ar ddiwygio'r adran sy'n ymwneud â chyfranogiad y cyhoedd.

**EN2601-05** **Camau gweithredu yn codi o gyfarfodydd blaenorol**

Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am yr holl gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' a oedd heb eu cwblhau i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Cafwyd trafodaethau ar nifer o gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau, a chamau gweithredu newydd arfaethedig.

**PENDERFYNWYD:** Diweddaru'r camau gweithredu heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; cofnodi'r manylion yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu.

**EN2601-08** **Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 30 Tachwedd 2025**

Adroddiadau wedi'u hatodi.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan Paul Beynon, y Swyddog Ariannol Cyfrifol, eisoes wedi'u dosbarthu i aelodau'r pwyllgor. Nid oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r adroddiadau cyllideb wedi'u darparu i'r swyddog cymorth pwyllgorau na'r swyddog ariannol cyfrifol cyn y cyfarfod.

Amlinellwyd yr adroddiadau i'r pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, a ddarparodd wybodaeth ychwanegol lle bo angen.

Amlinellodd y Cadeirydd hefyd fod Ashley, y Swyddog Cynnal a Chadw Tiroedd, wedi torri ei goes a byddai'n methu gweithio am chwe wythnos a fydd yn oedi nifer o brosiectau rhag symud ymlaen.

**CAM GWEITHREDU** Y Cynghorydd Townsend Jones i gysylltu â'r Cynghorydd Erasmus mewn perthynas â gosod mainc y tu allan i Oriel Lovespoon ar Heol y Mwmbwls.

**CAM GWEITHREDU** I'r Cynghorydd Nelson fwrw ymlaen â gosod blychau adar/ystlumod yn Rhandir Acre Field. Y Cynghorydd Townsend Jones i gysylltu ynghylch y gosodiad yn Rhandiroedd Cae Upper Norton (gwnaeth y Cynghorwyr Nelson, Townsend Jones a Fogarty ddatganiadau o fuddiannau personol oherwydd eu cysylltiad â'r rhandiroedd)

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiadau monitro cyllideb hyd at 30 Tachwedd 2025

Oherwydd bod angen i nifer o gynghorwyr adael y cyfarfod am 7.30pm, cytunwyd i flaenoriaethu nifer o eitemau ar yr agenda.

**PENDERFYNWYD** trafod eitemau agenda **EN2601-10 i EN2601-13** a mynd yn ôl at eitemau agenda cynharach os bydd amser yn caniatáu.

**Yr wybodaeth ddiweddaraf ar yr Hyb Beiciau**

**EN2601-10** Amlinellodd y Cynghorydd Townsend Jones gais i greu canolfan atgyweirio beiciau yn y Mwmbwls. Mae hyn yn cael ei gychwyn drwy Wheelrights. Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol i Gyngor Cymuned y Mwmbwls o ran ariannu, byddai argymhelliad i gefnogi canolfan o fudd i Wheelwrights mewn unrhyw geisiadau yn y dyfodol gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe. Gobeithir y bydd yr hyb yn cynnwys gweithdy atgyweirio a bydd hefyd yn darparu cefnogaeth i ddefnyddwyr sglefrfyrddau a sgwteri.

**ARGYMHELLWYD** Bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn darparu cefnogaeth ar gyfer cais i leoli canolfan cymorth beiciau yn y Mwmbwls.

**EN2601-11** **Gerddi Bethany**

Amlinellodd y Cynghorydd Townsend Jones gais gan wirfoddolwyr sy'n gysylltiedig â Chaffi Ripples sy'n cynnal a chadw ardal o'r enw Gerddi Bethany. Mae'r gwirfoddolwyr wedi gofyn i Cyngor Cymuned y Mwmbwls gefnogi menter i gynnal Gerddi Bethany ar y cyd â Gerddi Jiwbilî cyfagos.

**ARGYMHELLWYD** Bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn cefnogi gwirfoddolwyr i gynnal a chadw Gerddi Bethany a Gerddi Jiwbilî ar y cyd.

**Adolygiad o'r prosiectau, cynlluniau a blaenoriaethau cyfredol:-**

**EN2601-13**

**a) Yr wybodaeth ddiweddaraf ar y caffi trwsio**
Hysbysodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, y pwyllgor fod y Caffi trwsio wedi bod yn llwyddiant mawr yn ystod ei gamau cychwynnol. Fe'i cynhelir yn rheolaidd ar ail ddydd Gwener pob mis rhwng 10am ac 1pm yn yr Hub, Parc Underhill. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Gwener 13 Chwefror 2026.

**b) Strydoedd sy'n Hybu Gwenyn**
Rhoddodd y Cynghorydd Fogarty yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am geisiadau grant sy'n cael eu datblygu drwy gynllun grant treth tirlenwi. Gobeithir y bydd cyllid yn cael ei gymeradwyo ond mae nifer o gynghorwyr Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi ymrwymo eu lwfans i'r prosiect os oes angen.

**c) Yr wybodaeth ddiweddaraf ar Warchodfa Natur Norton, Perllan Gymunedol Ystumllwynarth a Gerddi'r Jiwbilî**
Bydd oedi ar gynnydd y prosiect hwn oherwydd anaf i'r swyddog cynnal a chadw tiroedd.

**d) Gweithdy plygu perthi pentref West Cross**

Hysbysodd y Cynghorydd Sara Keeton y pwyllgor fod paratoadau wedi'u gwneud ar gyfer gosod gwrych yn West Cross. Bydd tîm cynnal a chadw yn defnyddio llif gadwyn i glirio ardaloedd ar 24 i 26 Chwefror 2026. Ni fyddai'r gwaith hwn yn addas i wirfoddolwyr na staff Cyngor Cymuned y Mwmbwls gynorthwyo ag ef. Y Cynghorydd Keeton i roi diweddariad pellach yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Mawrth.

**e) Profi ansawdd dŵr**

Roedd yr eitem hon wedi cael sylw o dan gamau gweithredu heb eu cwblhau (**EN2601-05**) gyda Mari Potter yn bwrw ymlaen â'r mater.

**f) Su'r Mwmbwls yn ei Blodau 2026**

Trafododd y pwyllgor opsiynau ar gyfer hysbysebu a chofrestru cyfranogwyr. Ystyriwyd hefyd ddefnyddio prosiectau a digwyddiadau eraill i wneud y mwyaf o gyfranogiad gan gynnwys Cydweithfa Cnydau, Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls, Arwyr Gwyrdd a Caru Gwenyn. Awgrymwyd y gallai ffotograffau dros gyfnod y flwyddyn fod yn ddewis arall gwell nag un diwrnod beirniadu 'unigol' ac y gallai defnyddio Facebook hwyluso'r broses hon.
**PENDERFYNWYD:** Mari Potter i ystyried opsiynau addas a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ym mis Mawrth.

**g) Strydoedd sy'n hybu gwenyn** (Copïau o 13b)

**h) Systemau draenio cynaliadwy ac ymwybyddiaeth o lifogydd**

I'w gysylltu ag eitem 13K

**i) Y Mwmbwls Di-blastig**

Dim datblygiadau/diweddariadau

**j) Sesiwn Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls**

Mae manylion y digwyddiad ar gael drwy God QR ac yn cael eu hysbysebu drwy bosteri a gwefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls. Cynhelir y digwyddiad yng Nghanolfan Ostreme ar 21 Mawrth 2026 rhwng 6pm ac 8pm. Mae Kate Davies wedi cael ei chadarnhau fel aelod o'r panel.

**k) Digwyddiad gwyrdd ar gyfer Medi 2026**

Mae'r digwyddiad hwn wedi'i gynllunio i'w gynnal yng Nghanolfan Ostreme er nad oes dyddiad wedi'i bennu ar hyn o bryd. Cynigiwyd nifer o gynigion yn gysylltiedig â'r digwyddiad gan gynnwys stondinau gwyrdd ac arddangosiadau coginio. Yn ogystal, ystyriwyd cynnwys digwyddiadau eraill fel Su'r Mwmbwls yn ei Blodau, a Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls hefyd.

**PENDERFYNWYD**; Cytunwyd y dylid cynnull gweithgor i wneud y trefniadau angenrheidiol ac y dylid ymgynghori â'r swyddog cydlynu gwirfoddolwyr newydd ei phenodi, Sarah Thyer. Gwirfoddolodd y Cynghorydd Sara Keeton i fod yn rhan o'r gweithgor.

**EN2601-07** **Cyllideb 2026-2027**

Trafododd y Cyfarfod Craffu ar y Gyllideb a gwnaed argymhellion mewn perthynas â ffurflenni cynnig cyllideb ar 26 Ionawr 2026
Anogodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, aelodau'r pwyllgor i fod yn ymwybodol o gyllidebau sydd wedi tanwario ar hyn o bryd wrth ystyried cyllidebau ar gyfer 2026/27.
Gofynnodd y Cynghorydd Fogarty am gynigion ar gyfer lleoliadau cysgodfannau bysiau newydd yn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**PENDERFYNWYD** y dylai'r Cynghorydd Townsend Jones gynnwys yn ei Hadroddiad Amgylcheddol nesaf i'r Cyngor Llawn, yr opsiwn i gynghorwyr ar draws Cyngor Cymuned

y Mwmbwls wneud awgrymiadau ar gyfer lleoliad cysgodfannau bysiau. Cynigion i'w hanfon ymlaen at y Cynghorydd Townsend Jones cyn diwedd mis Chwefror 2026.

**EN2601-08** **Yr wybodaeth ddiweddaraf am lwybrau Coed y Castell**

Roedd yr eitem hon wedi cael sylw o dan gamau gweithredu heb eu gweithredu **(EN2601-05)**

**EN2601-09** **Cynllun hyfforddi**
**Lleoedd hyfforddiant Amrywiaeth gan Un Llais Cymru am ddim**

Nododd y Cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, fod dau le am ddim ar gael i gynghorwyr ar gyfer hyfforddiant amrywiaeth.

**EN2601-12** **Yr wybodaeth ddiweddaraf ar yr argyfwng bioamrywiaeth – Naid Fawr yr Hinsawdd**

**PENDERFYNWYD:** Eitem ar yr agenda wedi'i gohirio i gyfarfod mis Mawrth

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.31pm.**

**Cyfarfod nesaf 24 Chwefror 2026**